STRATEGAETH CYMWYSTERAU CYMRU – 2018 HYD AT 2022

IONAWR 2018

NESAF

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Ein rôl o fewn y system gymwysterau 4

Beth rydym am ei gyflawni 6

Sut rydym yn gweithio 7

Ein cynlluniau 11

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Cawsom ein sefydlu gan Ddeddf Cymwysterau Cymru ym mis Awst 2015, a gwnaethom ymgymryd â'n dyletswyddau a'n pwerau ym mis Medi y flwyddyn honno.

Rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno gan y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. Pan fydd corff dyfarnu yn un a gydnabyddir, rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a bennir gennym.

Rydym yn gorff statudol annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru[2]. Mae hyn yn golygu ein bod yn gwneud ein penderfyniadau ein hunain ynghylch cymwysterau ac yn rhoi cyngor arbenigol ac annibynnol i eraill. Mae hefyd yn golygu ein bod yn goruchwylio i ba safon y caiff cymwysterau eu dyfarnu, heb i unrhyw un arall ddylanwadu arnom.

Rydym yn atebol i bobl Cymru drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni yn y dyfodol.

Drwy weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, rydym yn monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu, yn adolygu cymwysterau presennol, yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio gofynion newydd ac yn cefnogi'r system gymwysterau. Drwy wneud y gwaith hwn, rydym yn sicrhau y gall dysgwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd yng Nghymru fod yn hyderus y gall cymwysterau, a'r system gymwysterau, ddiwallu eu hanghenion.

Diben y ddogfen hon

Yn y strategaeth hon, rydym yn nodi'r canlynol:

- Ein rôl o fewn y system gymwysterau
- Beth rydym am ei gyflawni
- Sut rydym yn gweithio
- Ein cynlluniau

Bwriedir i'r ddogfen hon roi trosolwg lefel uchel a bod yn ganllaw i ddogfennau manylach eraill.

[1] Dogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru

Ein rôl o fewn y system gymwysterau

Yn anad dim, rydym yn rheoleiddiwr a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth. Mae ein prif ddiben i'w weld yn Rhan 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015)[2], sy'n nodi ein prif amcanion ac, felly, ein cenhadaeth:

'sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;

hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.'

Wrth wneud hyn, byddwn:

- **yn ystyried y canlynol[3]:**
  - twf yn yr economi;
  - y Gymraeg;
  - ystod a natur cymwysterau a'u trefniadau asesu;
  - anghenion cyflogwyr, addysg uwch a'r proffesiynau;
  - p'un a yw cynnwys cymwysterau (yr hyn a ddysgir) yn gyfoes;
  - cysondeb â chymwysterau mewn mannau eraill;
  - effeithlonrwydd a gwerth am arian;
  - rolau a chyfrifoldebau'r rhai o fewn y system gymwysterau.

[2] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/section/3/enacted

[3] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/section/3/enacted

- **yn gweithio er budd dysgwyr yn yr hirdymor ac er lles y cyhoedd;**
- **yn pennu blaenoriaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ac yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol;**
- **yn gweithredu'n dryloyw;**
- **yn agored ac yn gyfrifol am ein penderfyniadau a'n camau gweithredu;**
- **yn cymryd camau gweithredu cymesur ac yn ymwybodol o ganlyniadau bwriadol – ac anfwriadol – ein camau gweithredu, penderfyniadau a chyngor i'r system gymwysterau ac addysg yng Nghymru;**
- **yn sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn gyson;**
- **yn croesawu sylwadau gan bob rhanddeiliad;**
- **yn ystyried yr effaith rydym yn ei chael ar hyder y cyhoedd;**
- **yn benderfynol ac yn gweithredu pan fo angen.**

Mae ein rôl yn un ehangach na rôl rheoleiddiwr cymwysterau confensiynol. Er enghraifft, mae gennym bwerau i gomisiynu cymwysterau newydd a chyfyngu ar yr amrywiaeth o gymwysterau a gynigir, ac rydym yn cefnogi asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r system gymwysterau drwy roi grantiau. Gan fod gennym ddiddordeb ym mhotensial arloesedd i fodloni gofynion cymwysterau a'r system gymwysterau yn y dyfodol, rydym yn chwilio am gyfleoedd ein hunain, ac am gefnogi cyrff dyfarnu pan fyddant yn arloesi.

Mae i'r rôl estynedig hon sawl mantais ond, wrth wneud y math hwn o waith, byddwn bob amser yn ystyried yr effaith bosibl ar ein rôl rheoleiddio graidd.

Beth rydym am ei gyflawni

Bydd ein diben wedi'i gyflawni pan fydd dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg yn ymddiried mewn cymwysterau rheoleiddiedig yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru ac yn eu gwerthfawrogi, a phan fydd y cymwysterau hynny yn cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol – dyma ein gweledigaeth gyffredinol, a fydd yn cael ei chyflawni pan:

- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y budd hirdymor i Gymru a'i myfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i fyfyrwyr;
- Mae cymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru yn ddilys, yn ddibynadwy a chânt eu dyfarnu i safon briodol;
- Mae trefn lywodraethu briodol ar waith i sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol;
- Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch;
- Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu i gefnogi system gymwysterau sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Rydym wedi dewis pennu'r nodau hyn fel *Deilliannau Rheoleiddio*[4] rydym am eu sicrhau. Rydym wedi ymgynghori arnynt a'u rhannu â'r cyrff dyfarnu a reoleiddiwn.

Mae'r angen i sicrhau'r deilliannau hyn yn llywio ein blaenoriaethau strategol a gweithgarwch gweithredol.

[4] Deilliannau Rheoleiddio

Sut rydym yn gweithio

Cwmpas a natur rheoleiddio

Caiff yr holl gymwysterau a gynigir gan gorff dyfarnu eu rheoleiddio – oni bai iddynt gael eu heithrio rhag cael eu rheoleiddio, neu am fod corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar gyfer cymhwyster neu fath o gymhwyster yn dilyn hynny. Gall cymwysterau rheoleiddiedig gael eu categoreiddio fel 'cymwysterau cymeradwy', 'cymwysterau dynodedig' neu 'gymwysterau a reoleiddir fel arall'[5].

Model ar gyfer rheoleiddio

- Mae cyrff dyfarnu yn ceisio cydnabyddiaeth drwy fodloni meini prawf penodol a nodir gennym.
- Mae cydnabod corff dyfarnu yn amodol ar gydymffurfiaeth â'r *Amodau Cydnabod*. Dyma ein prif ddogfen rheoleiddio, ac mae'n cael ei hategu gan ddogfennau rheoleiddio ychwanegol.
- Rydym yn monitro cydymffurfiaeth â'r *Amodau Cydnabod*.
- Rydym yn defnyddio ein pwerau i orfodi a rhoi cosbau pan fydd cyrff dyfarnu yn methu â chydymffurfio â'r *Amodau Cydnabod*.
- Pan fo'n briodol, rydym yn ymyrryd er mwyn sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr.

[5] Tudalen 11 o'r Ddogfen Fframwaith Rheoleiddio

Gweithgarwch rheoleiddio

Wrth wneud ein gwaith, rydym yn gwneud y canlynol:

- Pennu gofynion rheoleiddio drwy ein dogfennau rheoleiddio;
- Arfer rheolaeth dros fynediad i'r farchnad a reoleiddir er mwyn sicrhau bod gan sefydliadau yr arbenigedd, y trefniadau llywodraethu, y mesurau rheoli a'r gallu ariannol i gyflwyno cymwysterau dilys;
- Blaenoriaethu ein gwaith mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg gan ddefnyddio data, gwybodaeth ac arbenigedd;
- Monitro cymwysterau rheoleiddiedig a chydymffurfiaeth cyrff dyfarnu cydnabyddedig, a chynnal archwiliadau wedi'u targedu;
- Monitro effeithiolrwydd y system gymwysterau yng Nghymru;
- Pennu a chynnal safonau priodol ar gyfer cymwysterau, gan weithio gyda rheoleiddwyr cymwysterau eraill er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU;
- Ymchwilio i achosion posibl o dorri ein rheolau a chymryd camau gorfodi priodol yn ôl yr angen;
- Defnyddio tystiolaeth ymchwil i lywio ein penderfyniadau, camau gweithredu a chyngor;
- Cynnal adolygiadau o'r sector ac adolygiadau thematig;
- Ymgynghori ar newidiadau posibl i'r system gymwysterau;
- Comisiynu cymwysterau drwy broses gystadleuol agored er mwyn diwallu anghenion y farchnad;
- Cynnal cronfa ddata QiW: ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig a ddyfernir yng Nghymru;
- Rhoi grantiau i gefnogi'r system gymwysterau, gan gynnwys cymorth i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein dull gweithredu yn cael ei esbonio'n fanylach yn ein *Fframwaith a Dull Rheoleiddio*[6], sy'n crynhoi'r fframwaith a'r dull presennol o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru. (Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i ddogfennau rheoleiddio eraill sy'n fwy manwl.)

[6] Dogfen Fframwaith Rheoleiddio

Dull rheoleiddio

Rydym yn edrych tuag at allan, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithredu er mwyn atgyfnerthu ein gallu i roi hwb i hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau yng Nghymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

- Rydym yn gwahodd dysgwyr i roi eu safbwyntiau, yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt;
- Rydym yn gwrando ar adborth, safbwyntiau a phryderon rhanddeiliaid ac yn ymateb iddynt yn briodol;
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gymesur ag effaith bosibl y camau gweithredu rheoleiddio;
- Mae ymgynghoriadau yn dryloyw ac ystyrlon;
- Rydym yn cydweithredu ac yn defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid fel sy'n briodol;
- Rydym yn ceisio meithrin a chynnal cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid allweddol;
- Mae ein gwaith cyfathrebu'n glir, yn amserol, yn llawn gwybodaeth ac wedi'i dargedu; rydym yn adolygu effaith ein gwaith cyfathrebu ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wella'r ffordd rydym yn gwneud hynny;
- Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill lle bynnag y bo'n bosibl gan ystyried yr effaith ar gyrff dyfarnu a reoleiddir gan fwy nag un rheoleiddiwr;
- Rydym yn cynnal asesiadau effaith rheoleiddio os ydynt yn briodol er mwyn asesu'r gost, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pholisi neu gam gweithredu.

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n gwaith:

- **Cydweithredol** o ran ein ffordd o weithio
- **Ystyriol** o ran ein dulliau gweithredu
- **Cadarnhaol** o ran ein hagwedd
- **Dysgu** o brofiad a chan eraill

Ein cynlluniau

Mae ein cynlluniau'n canolbwyntio'n benodol ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol, ac yn cael eu hategu gan ein cynllun strategol corfforaethol. Bwriad y cynlluniau strategol yw nodi ein blaenoriaethau dros dair i bum mlynedd. Fel rheoleiddiwr ymatebol, rydym yn cydnabod y gall blaenoriaethau newid, felly caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu o safbwynt eu perthnasedd bob blwyddyn a'u hailystyried yn ffurfiol gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ar ôl tair blynedd (yn gynt os bydd ein hadolygiad blynyddol yn awgrymu bod angen gwneud newidiadau sylweddol).

Mae'r cynlluniau strategol yn canolbwyntio ar ein gweithgarwch ac yn darparu sail ar gyfer cynllunio blynyddol (gan gynnwys dyrannu ein hadnoddau) a mesur cynnydd. Rydym yn mesur cynnydd drwy gyflawni blaenoriaethau gweithredol a nodir yn ein cynllun busnes, a chaiff mesurau llwyddiant eu disgrifio ym mhob cynllun strategol.

Mae ein cynlluniau strategol yn ymwneud â'n diben, yr hyn rydym am ei gyflawni a'n dull gweithredu, ac felly'n adeiladu ar elfennau cynharach y strategaeth hon.

Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol

Rydym wedi strwythuro ein cynllun[7] yn ôl pum prif faes â ffocws strategol a'r prif heriau rydym yn disgwyl eu hwynebu dros y tair i bum mlynedd nesaf.

Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Sicrhau safonau** – Dylai dysgwyr yng Nghymru fod yn hyderus bod y cymwysterau y maent yn astudio ar eu cyfer yr un mor drwyadl a heriol â'r rhai yr astudir ar eu cyfer mewn gwledydd eraill. Rydym am i gymwysterau cyffredinol yng Nghymru gael eu cydnabod yn eang fel mesur dibynadwy, sicr a theg o gyflawniad dysgwyr.
2. **Gwerthuso newid** – Mae cymwysterau cyffredinol wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. Bydd angen i'r cymwysterau newydd gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gweld sut maent yn perfformio a gwerthuso eu heffaith.
3. **Gwella dealltwriaeth y cyhoedd** – Mae rhoi gwybodaeth gywir a dibynadwy am gymwysterau a'r system gymwysterau yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn. Er mwyn cael ffydd mewn cymwysterau cyffredinol, rydym o'r farn bod angen i'r cyhoedd wybod sut maent yn gweithio a deall y rhan y maent yn ei chwarae yn y system addysg.
4. **Cynnig mwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** – Rydym am i'r holl gymwysterau cyffredinol a gynigir yng Nghymru fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
5. **Gwneud newidiadau fesul tipyn yn y dyfodol** – Rydym am ganiatáu amser i gymwysterau a ddiwygiwyd ymsefydlu ac i athrawon, ysgolion a cholegau addasu er mwyn eu cyflwyno.

[7] Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol

Y cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn:

1. **Symud i gymwysterau TGAU a Safon Uwch a gynlluniwyd ar gyfer Cymru'n unig** – Bydd y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch a gynigir yng Nghymru yn wahanol i gymwysterau a gynigir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn cael eu dyfarnu'n annibynnol arnynt. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn broblem ynddi'i hun, ond mae'n golygu bod yn rhaid i ni wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y cymwysterau a reoleiddiwn yn rhai dibynadwy ac yn fodd i symud ymlaen i addysg bellach a'r byd gwaith;
- Gweithio gydag eraill i sicrhau bod digon o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gyflwyno cymwysterau newydd yn llwyddiannus;
- Cynnal ystod o bynciau TGAU a Safon Uwch, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, y gall myfyrwyr ddewis ohonynt.

2. **Rheoli'r broses o gyflwyno cymwysterau newydd** – Gall cyflwyno cymwysterau newydd gynnig cyfleoedd i wella, ond gall hefyd roi mwy o bwysau ar y system. Rhaid i gyrff dyfarnu, ysgolion a cholegau addasu i gyflwyno'r cymwysterau newydd.

3. **Strwythur newidiol y farchnad cymwysterau cyffredinol** – Un o ganlyniadau gwaith diwygio yw bod y cymwysterau TGAU a Safon Uwch a gynlluniwyd i Gymru'n unig bellach yn cael eu cynnig gan un corff dyfarnu: CBAC. CBAC hefyd yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru. Mae sawl risg yn gysylltiedig â dibynnu'n fwy ar un corff dyfarnu; fodd bynnag, mae i fodel marchnad symlach lawer o fanteision, yn enwedig pan fo'r system yr un maint â'r un a geir yng Nghymru.

4. **Effaith bosibl y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gymwysterau** – Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru yn debygol o gael effaith ar gymwysterau cyffredinol dros y blynyddoedd nesaf.

Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol

Mae ein Cynllun **Strategol ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol**, a ddisgrifir yn ein Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol ar hyn o bryd, yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Adolygiadau o'r sector** – Mae'n rhaid i gymwysterau galwedigaethol adlewyrchu anghenion cyflogwyr – hyd yn oed os astudir ar eu cyfer fel cam cychwynnol na fydd yn arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth. Yn hytrach nag ystyried un oedran, neu un cam, ar y tro, rydym yn adolygu cymwysterau yn ôl sectorau – gan ganolbwyntio ar y cymwysterau o fewn sectorau cyflogaeth penodol a nodwyd fel meysydd lle y ceir twf economaidd.
2. **Rhoi canfyddiadau ein hadolygiadau o'r sector ar waith** – Mae pob adolygiad yn wahanol, ac ni fydd canlyniadau un adolygiad o reidrwydd yr un fath â'r adolygiad nesaf, felly ni allwn ragweld yr effaith y byddant yn ei chael ar ein gwaith. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gall rhai adolygiadau o'r sector arwain at gomisiynu cymwysterau newydd drwy ein proses gystadleuol agored neu drwy gymryd camau rheoleiddio eraill.
3. **Targedu gwaith monitro cymwysterau galwedigaethol penodol** – Ceir miloedd ar filoedd o gymwysterau galwedigaethol, felly nid yw'n bosibl monitro pob un ohonynt yn fanwl. Felly, byddwn yn defnyddio sawl ffactor risg i dargedu ein diddordeb mewn cymwysterau penodol neu fathau o gymwysterau. Er enghraifft, y rhai lle y gwelir lefelau cofrestru ac ardystio uchel, y rhai sy'n asesu meysydd gwaith lle mae diogelwch yn hanfodol, y rhai sy'n bodloni gofynion i ymarfer neu lle mae angen trwydded i wneud hynny, a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn cwmpas adolygiad o'r sector. Wrth nodi meysydd o ddiddordeb, byddwn yn ystyried y gwaith a wneir gan gyd-reoleiddwyr cymwysterau fel y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf gyda'n gilydd.

Y cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn:

1. **Yr amrywiaeth eang a'r nifer fawr o gymwysterau galwedigaethol yr astudir ar eu cyfer mewn lleoliadau gwahanol ac at ddibenion gwahanol ac a gaiff eu hasesu mewn ffyrdd gwahanol** – Nid yw'r un peth yn gweithio i bawb yn achos cymwysterau galwedigaethol, felly gall fod yn heriol eu rheoleiddio'n gyson ac yn effeithiol.

2. **Effaith datblygu polisi yn Lloegr** – Gan fod y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cyflwyno ledled y DU ar hyn o bryd, bydd newidiadau i'r ffordd y caiff prentisiaethau eu hasesu a'r gwaith o gyflwyno Lefelau T yn Lloegr yn cael effaith ar y farchnad cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru a Lloegr. Os na fydd rhai cymwysterau galwedigaethol bellach yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yn Lloegr, mae'n bosibl na fydd cyrff dyfarnu yn barod i barhau i gynnig y cymwysterau hynny yng Nghymru, lle mae'r farchnad yn gymharol fach.

3. **Effaith bosibl y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gymwysterau** – Fel gyda chymwysterau cyffredinol, gallai cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael effaith ar ddewisiadau addysg alwedigaethol dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed.

4. **Y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg** – Nid yw cymwysterau galwedigaethol a gynigir ledled y DU bob amser yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol

Mae gennym gynllun strategol ar gyfer gallu corfforaethol sy'n nodi pum maes â ffocws a phedair her.

Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Galluogi ein gwaith rheoleiddio** – Rydym am i'n staff rheoleiddio gael eu cefnogi yn eu gwaith. Rydym wedi ymroi i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoli arian cyhoeddus ag uniondeb, heb greu prosesau biwrocratig sy'n ein hatal rhag gweithredu neu weithredu'n effeithiol. Mae hyn yn golygu bod angen polisïau a phrosesau clir sy'n galluogi, sy'n hawdd eu dilyn ac sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg. Rydym yn annog ein staff corfforaethol i weithio mewn ffordd y gall pobl fynd atynt yn hawdd ac i ymateb i ymholiadau'n gyflym. Yn bwysicach na dim, rydym yn hyfforddi ac yn cefnogi ein staff rheoleiddio, fel bod ganddynt ffydd yn y cyfrifoldebau corfforaethol a ddirprwyir iddynt.
2. **Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau** – Rydym yn ceisio manteisio i'r eithaf ar werth ein hadnoddau – hynny yw ein pobl, yr hyn rydym yn ei wario ar brosesau caffael neu grantiau a'n hasedau ffisegol – ac rydym yn ceisio cynnig amgylchedd gwaith sy'n cefnogi gweithio ystwyth. Mae hyn yn golygu prosesau grantiau a chaffael sy'n cyflawni, polisïau pobl a TG sy'n hyblyg a swyddfa sy'n groesawgar ac sy'n annog cydweithio.
3. **Cynnal a defnyddio sgiliau proffesiynol** – Rydym yn buddsoddi mewn staff arbenigol proffesiynol yn ein swyddogaethau corfforaethol ac yn eu cefnogi i Ddatblygu'n Broffesiynol yn Barhaus. Rydym yn disgwyl iddynt ddeall ein pwerau a'n dyletswyddau ac yn eu hannog i gefnogi staff rheoleiddio yn eu gwaith.

4. **Trefniadau llywodraethu effeithiol ac effeithlon** – Mae trefniadau llywodraethu da wrth wraidd sicrhau bod ein sefydliad yn cael ei gynnal yn dda. Rydym yn ceisio sicrhau bod y systemau a'r prosesau cywir ar waith, bod ein staff yn gwybod amdanynt ac yn eu deall, a bod ein gwerthoedd yn seiliedig arnynt. Rydym am greu amgylchedd lle mae staff yn cael eu grymuso, yn cael digon o wybodaeth i wneud eu gwaith ac yn deall ein system reoli, eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u hawdurdod dirprwyedig.

5. **Gwerthuso, datblygu a gwella'n barhaus** – Rydym yn cydnabod bod angen mesur a gwerthuso perfformiad yn effeithiol er mwyn gwella'n barhaus. Mae dysgu o feincnodi ac adolygu'n rheolaidd yn rhywbeth y bydd gwasanaethau corfforaethol yn canolbwyntio arno'n barhaus.

TY cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn:

1. **Mae Cymwysterau Cymru yn sefydliad sy'n cyflogi llai na 100 o aelodau o staff** – Fel sefydliad bach, gall fod yn heriol cyflawni'r hyn a ddisgwylir gan bob corff cyhoeddus, a chynnal swyddogaeth gorfforaethol o faint cymesur a rheoli gorddibyniaeth ar unigolion ar yr un pryd. Rydym yn parhau i fod yn agored i weithio gyda chyrff eraill, ond yn ystyried ei bod yn hollbwysig bod y swyddogaethau corfforaethol craidd yn cael eu cyflawni ar y safle gan ein staff ein hunain, gan eu bod yn cael cymaint o effaith sylweddol ar ein diwylliant corfforaethol.

2. **Ansicrwydd ynghylch cyllid yn y tymor canolig** – Rydym yn cael grant bob blwyddyn ac nid oes sicrwydd ynghylch lefel y cyllid yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol bod llawer o bwysau ar gyllid cyhoeddus ac y gall llai o gyllid fod ar gael i ni yn y dyfodol.

3. **Rheoli newidiadau i ddeddfwriaeth, rheoliadau neu bolisïau** – Yn aml, mae rheoliadau, canllawiau statudol neu bolisïau Llywodraeth Cymru wedi'u hanelu at sefydliadau mwy sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Weithiau, mae'n anoddach i sefydliadau arbenigol llai roi'r rheoliadau hyn ar waith.

4. **Cynnal ein henw da** – Fel sefydliad cymharol newydd, sydd â rôl bwysig yn gyhoeddus, ni allwn fforddio gwneud camgymeriadau, a rhaid i ni ddatblygu a chynnal ein henw da a chyfathrebu'n glir er mwyn meithrin hyder y cyhoedd.

Adeilad Q2,
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Coedcernyw,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373222

© 2018 Cymwysterau Cymru